# SUT GALL DY YSGOL DI GYMRYD RHAN YN DYDD MIWSIG CYMRU?




CYMRAEG

# Beth yw Dydd Miwsig Cymru?

Mae Dydd Miwsig Cymru yn cael ei gynnal ddydd Gwener 13 Chwefror 2026, ac mae'n dathlu byd bywiog miwsig Cymraeg. O draddodiadau gwerin cryf i electronica arloesol, o anthemau indi i guriadau hip hop, mae miwsig Cymraeg yn adlewyrchu iaith fyw a diwylliant creadigol ffyniannus.

Beth am ymuno â'r dathliadau gyda dy ysgol di? Mae gwrando ar fiwsig Cymraeg yn ffordd wych o ddysgu yn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan i'r dosbarth, a gall fod yn gyfle i rieni sydd ddim yn siarad Cymraeg ddod yn nes at fyd Cymraeg eu plentyn mewn ffordd hwyliog a hygyrch. Mae miwsig i bawb.

Mae rhai syniadau wedi'u cynnwys isod ar sut i gymryd rhan a sut gall cymuned dy ysgol di fwynhau miwsig yn eu cartrefi.





# Sut gallwch chi gymryd rhan?

- **Troi'r Miwsig yn uwch:** Defnyddia Spotify, YouTube neu BBC Sounds (Miwsig y Siarter Iaith) i lenwi'r ysgol gyda miwsig Cymraeg drwy'r dydd.
- **Canu ar y cyd i draciau Carioci Seren a Sbarc:** Perffaith ar gyfer disgyblion iau, neu weithgaredd hwyliog amser cinio.
- **Creu cân Gymraeg newydd:** Defnyddia gynllun gwers Creu Cân i helpu disgyblion i ysgrifennu, perfformio a dathlu eu miwsig eu hunain.
- **Cynnal disgo Dydd Miwsig Cymru yn yr ysgol:** Mae disgo cyflym amser cinio yn ffordd hawdd o gael yr ysgol gyfan i gymryd rhan.
- **Bod yn greadigol gyda syniadau ychwanegol:** Beth am greu rhestr chwarae ar gyfer yr ysgol (ffefrynnau staff a disgyblion), cynnal sioe radio fer, annog busnesau lleol i chwarae miwsig Cymraeg, neu argraffu gweithgareddau hwyliog fel chwilair, pos neu lun i'w liwio.

Mae ein ffrindiau, cydlynwyr y Siarter Iaith, wedi creu'r wefan ddefnyddiol YMA

# Negeseuon templed ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol:

* Os yw'n well gan dy ysgol greu negeseuon cyfryngau cymdeithasol eu hunain yn Saesneg, galli di eu hanfon nhw draw at Helo Blod, sef dy wasanaeth cyfieithu cyflym a chyfeillgar, am ddim: www.llyw.cymru/HeloBlod

| Cymraeg | English |
| --- | --- |
| Pop. Roc. Rap. R&B. Jazz. Hip hop. Mae pob math o fiwsig yn cael ei greu yn Gymraeg ac rydyn ni'n edrych ymlaen i'w ddathlu fel rhan o #DyddMiwsigCymru ddydd Gwener 13 Chwefror. @Cymraeg | Pop. Rock. Rap. R&B. Jazz. Hip hop. All sorts of miwsig are being made in the Welsh language and we can't wait to celebrate it all for #DyddMiwsigCymru on Friday 13 February. @Cymraeg |
| Ar gyfer #DyddMiwsigCymru eleni, rydyn ni'n cynnal ein parti miwsig ein hunain, yn dathlu'r holl fiwsig Cymraeg anhygoel. @Cymraeg | For this #DyddMiwsigCymru we are hosting our very own miwsig parti, celebrating all the amazing music made in the Welsh language. @Cymraeg |
| Rydyn ni'n gwrando ar diwns a #Miwsig Cymraeg i ddathlu #DyddMiwsigCymru. Gallwch chi wneud hefyd👇 https://open.spotify.com/user/dyddmiwsigcymru?si=51d8008116624821 @Cymraeg | We're listening to Welsh language #Miwsig to help us celebrate #DyddMiwsigCymru. You can do the same👇 https://open.spotify.com/user/dyddmiwsigcymru?si=51d8008116624821 @ Cymraeg |

## Brandio

Ar gyfer 2026, mae gennym ni waith celf newydd sbon a phosteri digidol i ti eu lawrlwytho.

**LAWRLWYTHA**










## Cadwa mewn cysylltiad




Dilyna ni ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol i gael gwybod y diweddaraf am ddigwyddiadau Dydd Miwsig Cymru, pa fiwsig newydd sy'n cael ei ryddhau a sut i gymryd rhan.

Facebook @Cymraeg
X @Cymraeg
Instagram @Cymraeg_welsh
TikTok @Cymraeg
Youtube @Cymraeg

Os oes gen ti syniad a bod angen cymorth arnat i'w wireddu, neu os hoffet gael deunyddiau marchnata, e-bostia Ffion Roberts ffion.roberts@workingword.co.uk